OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 1136 (Cy. 113)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth) i Bont Britannia, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *29 Ebrill 2014* |
| *Yn dod i rym* | *6 Mai 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Mai 2014 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth) i Bont Britannia, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2014.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 6 Mai 2014 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw:

i. y darn o brif gerbytffordd tua’r gorllewin y gefnffordd yn Sir Gwynedd sy’n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua’r gorllewin wrth Gyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth) i Bont Britannia, pellter o 1 cilometr; a

ii. y darn cyfan o’r ffordd ymuno tua’r gorllewin wrth Gyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth).

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r gefnffordd.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal na pheri i unrhyw feic o’r fath gael ei reidio ar y darnau o’r gefnffordd.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o’r gefnffordd.

**Cymhwyso**

**6.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 29 Ebrill 2014

*R Morgan*
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae’r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.